# Hyfforddiant Llywodraethwyr Bro Morgannwg
# Tymor y Gwanwyn 2026

| | |
|---|---|
| **Sefydlu**<br><br>Dydd Mercher 28 Ionawr<br>17:30-19:00<br><br>Dydd Iau 12 Mawrth<br>16:00-17:30 | Mae’r **modiwl gorfodol** hwn sydd wedi’i ddiwygio wedi'i anelu at lywodraethwyr newydd, a rhaid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y penodi.<br>Bydd yn helpu llywodraethwyr newydd gael yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddechrau cyflawni eu rôl yn effeithiol i gefnogi eu hysgol wrth godi safonau.<br><br>**Bydd y sesiwn hyfforddi yn canolbwyntio ar:**<br><br>• Sut mae gweledigaeth yr ysgol yn siapio gwerthoedd ar draws cymuned yr ysgol ac yn gyrru diwylliant o ddisgwyliadau uchel<br>• Rolau a chyfrifoldebau allweddol llywodraethwyr<br>• Cyfansoddiad cyrff llywodraethu a sut maen nhw'n gweithio<br>• Her a chymorth effeithiol. |
| **Data**<br><br>Dydd Mawrth 3 Chwefror<br>16:00-17:30<br><br>Dydd Mercher 25 Mawrth 17:30-19:00 | Mae’r **modiwl gorfodol** wedi'i ddiweddaru **hwn ar gyfer llywodraethwyr newydd** yn anelu at ddatblygu dealltwriaeth o gynnydd ysgol a data perfformiad.<br><br>**Mae'r sesiwn yn archwilio:**<br><br>• Y math o ddata a ddefnyddir gan ysgolion a'r rôl y mae data’n ei chwarae mewn gwella ysgolion<br>• Sut y gall llywodraethwyr ddefnyddio data i herio a chefnogi'r ysgol i wella<br>• Sut mae llywodraethwyr yn atebol am y cynnydd a wnaed gan bob grŵp o ddysgwyr, a sut y caiff y data hwn ei gasglu a'i ddefnyddio gan eu hysgolion<br>• Y math o gwestiynau y gall llywodraethwyr eu gofyn am ddata eu hysgolion eu hunain |
| **Dileu Swyddi**<br><br>Dydd Iau 5 Chwefror<br>17:30-19:00 | Bydd y cwrs hwn yn cwmpasu rôl y corff llywodraethu o fewn y polisi Dileu Swyddi a argymhellir gan y Cyngor. Ei nod yw sicrhau bod llywodraethwyr yn hollol gyfarwydd â’r polisi a’r gweithdrefnau Dileu Swyddi a argymhellir.<br><br>Mae’n arbennig o berthnasol i lywodraethwyr sy’n aelodau o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a’r pwyllgor apeliadau disgyblu a diswyddo staff yn ogystal â'r pwyllgor cyllid. |
| **Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (CCBau)**<br><br>Dydd Mercher 11 Chwefror<br>17:30-19:00 | Mae'r Cynllun Cymorth Bugeiliol (CCB) yng Nghymru wedi'i gynllunio i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau i addysg, gyda'r nod o wella eu canlyniadau cymdeithasol, emosiynol ac academaidd. Mae'r CCB yn ddull byrdymor (6 i 8 wythnos), yn yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda'r nod o helpu plant a phobl ifanc sy'n wynebu heriau fel presenoldeb gwael, problemau ymddygiad, neu anawsterau academaidd.<br><br>Mae'r cynllun yn gwasanaethu fel offeryn ymyrraeth gynnar i atal gwaharddiad o'r ysgol ac i gefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau addysgol gwell.<br><br>**Nodau'r hyfforddiant hwn yw cefnogi llywodraethwyr i fod yn hyderus i ddeall y canlynol.**<br><br>• Beth yw Cynlluniau Cymorth Bugeiliol?<br>• Beth yw Dysgu Hyblyg?<br>• Beth yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol? |

| | |
|---|---|
| | • Pryd gallai Cynllun Cymorth Bugeiliol weithredu er budd y plentyn?<br>• Pryd allai cynllun dysgu hyblyg weithredu er budd y plentyn?<br>• Beth i'w ddisgwyl gan swyddogion yr ALl? |
| **Diogelwch ar y Rhyngrwyd**<br><br>Dydd Llun 2 Mawrth<br>17:30-19:00 | Bydd yr hyfforddiant yn helpu Llywodraethwyr i ddeall cefndir diogelwch ar y Rhyngrwyd, ynghyd â'r goblygiadau mewn ysgolion. Amcanion y cwrs fydd:<br><br>• Cyflwyno golwg cyffredinol ar ddiogelwch ar y Rhyngrwyd;<br>• Trafod Adnodd Adolygu 360o Safe a'r sefyllfa bresennol yn yr awdurdod lleol ynghyd â dolenni i arolygiadau Estyn;<br>• Nodi cyfrifoldebau mewn cysylltiad â diogelwch ar y Rhyngrwyd mewn ysgolion, edrych ar y polisïau sydd ar waith, cadarnhau adolygiadau, dulliau o ddwyn ysgolion i gyfrif a chwestiynau i'w gofyn i uwch dîm arwain yr ysgol; a hefyd<br>• Trafodaeth am adnoddau pellach sydd ar gael i ysgolion ac o ran llywio hyfforddiant yn y dyfodol. |
| **Gweithdrefnau Disgyblu**<br><br>Dydd Mercher 4 Mawrth<br>17:30-19:00 | **Diben y sesiwn friffio hon yw:**<br><br>• rhoi trosolwg ar Weithdrefnau Disgyblu mewn Ysgolion Cyngor Bro Morgannwg y dylai pob corff llywodraethu fod wedi eu mabwysiadu;<br>• atgoffa llywodraethwyr o egwyddorion proses deg; ac<br>• egluro rolau a chyfrifoldebau Penaethiaid a llywodraethwyr yn y broses ddisgyblu<br><br>*Mae'r cwrs hwn yn arbennig o berthnasol i bob llywodraethwr ar bwyllgorau disgyblu a diswyddo a phwyllgorau apeliadau disgyblu a diswyddo'r corff llywodraethu.* |
| **Presenoldeb a Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau)**<br><br>Dydd Mawrth 10 Mawrth<br>17:30-19:00 | Nod y sesiwn hon yw cynorthwyo llywodraethwyr i wybod sut i gefnogi dulliau ysgol a'r ALl i annog presenoldeb ac ymgysylltu cadarnhaol. Bydd yn edrych ar gosbau a chefnogaeth i bobl nad ydynt yn mynychu a'r croestoriad ag anghenion iechyd meddwl posib sy'n gysylltiedig â mynychwyr gorbryderus ac sydd â ffobia a sut mae ysgolion a'r ALl yn cefnogi'r anghenion hyn. Bydd yn ymdrin â'r croestoriad â meysydd eraill fel Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (CCBau) a materion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a bydd yn edrych ar lwybrau atgyfeirio, yn cyfeirio ac yn darparu adnoddau.<br><br>Caiff llywodraethwyr eu cefnogi gyda gwybodaeth am bolisïau a chanllawiau gan gynnwys diweddariadau Llywodraeth Cymru i'w galluogi i weithredu fel cyfeillion beirniadol o ran cefnogi eu UDA gyda sicrhau ansawdd ac archwiliadau yn y maes hwn. |
| **Dysgu Proffesiynol ar Amrywiaeth a Gwrth-Hiliaeth (DARPL)**<br><br>Dydd Llun 16 Mawrth<br>17:30-19:00 | Bydd y gweithdy Llywodraethwyr hwn yn datgelu gwrth-hiliaeth ac yn archwilio camau y gellir eu cymryd ar lefel uwch strategol. Mae'r sesiwn hon yn edrych ar ddiwylliant sefydliadol, effaith hiliaeth ar les a bywydau pobl Ddu, Asiaidd a phobl Ethnig Leiafrifol eraill ac ar bolisïau a gweithdrefnau a allai effeithio'n andwyol ar y rheini o gefndiroedd nad ydynt yn Wyn.<br><br>Mae'n bwysig bod gwrth-hiliaeth yn cael ei sbarduno ar lefel strategol, er mwyn sicrhau bod pob lleoliad addysgol yn effeithio ar newid cadarnhaol a gwelliant. |
| **Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDDau)** | Polisi'r Fro yw bod pob Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LlDD) yn adnewyddu eu hyfforddiant ddwywaith y flwyddyn. Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â disgwyliad y rôl, yn darparu dealltwriaeth o'r Pecyn Cymorth Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (CDDd) ac yn nodi sut i ddangos |

# Hyfforddiant Llywodraethwyr Bro Morgannwg
# Tymor y Gwanwyn 2026

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher 18 Mawrth 17:30-19:00 | tystiolaeth o atebolrwydd i Estyn o ran ansawdd ac effeithiolrwydd pa mor ddiogel yw'r ysgol drwy ddiweddaru a gwella polisi a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. |
| **Sesiwn Goffi a Dal i Fyny Ar-lein ar gyfer Llywodraethwr Newydd**<br><br>Dydd Gwener 6 Mawrth 12:00-13:30 | Os ydych wedi bod yn llywodraethwr am 1 flwyddyn neu lai, fe'ch gwahoddir yn gynnes i ddod i gwrdd â'r Uwch Swyddog Cymorth Llywodraethwyr ar-lein i ddweud helo ac achub ar y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am lywodraethu yn y Fro. Sesiwn galw heibio yw hon, felly gallwch ymuno ar-lein, unrhyw bryd rhwng 12:00 a 13:30. Dewiswch yr opsiwn hwn ar y ffurflen archebu i gofrestru eich diddordeb ac i dderbyn dolen ymuno cyn y sesiwn. |

## Ffurflen Archebu

## Hyfforddiant Llywodraethwyr

## Calendr hyfforddiant

| Dyddiad | Amser | Sesiwn |
|---|---|---|
| Merch, 28 Ion | 5.30-7.00pm | Sefydlu |
| Mawrth, 3 Chwef | 4.00-5.30pm | Data |
| Iau, 5 Chwef | 5.30-7.00pm | Dileu Swyddi |
| Merch, 11 Chwef | 5.30-7.00pm | Cynlluniau Cymorth Bugeiliol CCBau) |
| **Llun, 16 Chwef** | | **Wythnos Hanner Tymor** |
| Llun, 2 Mawrth | 5.30-7.00pm | Diogelwch ar y Rhyngrwyd |
| Merch, 4 Mawrth | 5.30-7.00pm | Gweithdrefnau Disgyblu |
| Gwen, 6 Mawrth | 12.00-1.30pm | Sesiwn Galw Heibio Ar-lein ar gyfer Llywodraethwr Newydd |
| Maw, 10 Mawrth | 5.30-7.00pm | Presenoldeb a HCBau |
| Iau, 12 Mawrth | 4.00-5.30pm | Sefydlu |
| Llun, 16 Mawrth | 5.30-7.00pm | DARPL |
| Merch, 18 Mawrth | 5.30-6.30pm | LlDDau |
| Merch, 25 Mawrth | 5.30-7.00pm | Data |

## Ffurflen Archebu

## Hyfforddiant